

Cwestiynau cyffredin – Bod yn Gyngorydd

Lle rydw i'n dechrau?

Er mwyn dyfod yn ymgeisydd bydd angen i chi neu'ch asiant (os oes gennych un) gwblhau ffurflen enwebu sydd ar gael [YMA](#).

Mae'n rhaid i'r enwebiad gael ei gyflwyno erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad ar 5 Ebrill 2022.

Dydw i ddim yn siarad Cymraeg?

Nid yw bod yn siaradwr Cymraeg rhugl yn ofyniad i ddyfod yn gyngorydd, fodd bynnag, mae llawer o gyrsiau ar gael i gyngorwyr sydd yn dymuno dysgu.

A allaf i weithio'n llawn amser o hyd?

Mae croeso i bob cyngorydd barhau i weithio'n llawn amser tra eu bod yn gyngorwyr gan ei fod yn ofyniad i gyflogwyr ganiatáu amser i ffwrdd o'r gwaith i gyflogeion wneud eu swyddogaethau fel cyngorwyr. Fodd bynnag, mae nifer o gyngorwyr yn dymuno dilyn gyrfa fel cyngorydd, yn llawn amser. Fel arfrer, mae cyngorwyr yn neilltuo 3 diwrnod o'r wythnos er mwyn gwneud eu swyddogaethau.

A fyddaf yn derbyn cymorth i fy anabledd?

Fel cyngor sydd yn coleddu amrywiaeth, croesawn geisiadau gan ymgeiswyr o bob gallu ac rydym yn addo darparu'r cymorth angenrheidiol i chi gyflawni'ch rôl. Mae rhagor o wybodaeth a chymorth ar gael ar y wefan Bod yn Gyngorydd.

A allaf gynrychioli fy mhlaid wleidyddol?

Os dymunwch gynrychioli'ch plaid wleidyddol, dylech gysylltu â'ch plaid yn lleol a hynny ar fyrder er mwyn iddynt gael eich cynghori a'ch cynorthwyo i ddyfod yn ymgeisydd.

Nid ydwyf yn perthyn i blaid

Mae croeso i unrhyw ymgeisydd sefyll fel ymgeisydd annibynnol a dylech gysylltu â Gwasanaethau Etholiadol am ragor o wybodaeth.

A oes unrhyw gymorth ar y cyfryngau cymdeithasol?

Bydd pob cynghorydd yn derbyn hyfforddiant TG manwl yn ogystal â gweithdai diogelwch er mwyn diogelu preifatrwydd.

Rwyf o dan 18 oed

Peidiwch â phoeni, gallwch gyfranogi! Am y tro cyntaf mewn hanes, mae unigolion sydd yn 16 ac 17 oed yn gymwys i bleidleisio yn etholiad 2022 yng Nghymru. Os ydych am fod yn gynrychiolydd a chyfranogi, hyd yn oed os ydych o dan 18 oed, gallwch sefyll i fod yn ymgeisydd ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [YMA](#).